**Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL**

**17 Mehefin 2020**

Yn Bresennol: Cynghorydd S Yelland (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair ar gyfer eitem 1.)
Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.50am; 12.00pm - 12.35pm)

**1. Ethol Cadeirydd**
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol y Cynghorydd K Doolin yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Cymerodd y Cynghorydd K Doolin y Gadair a bu'n llywyddu am weddill y cyfarfod.]*

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol y Cynghorydd S Yelland yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans.

**4. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**5. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Ragfyr 2019 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg o Ragfyr 2019.

**6. Gweithio gydag Ysgolion - Ymateb i heriau'r Cwricwlwm newydd i Gymru**
Roedd yr adroddiad yn amlinellu amrediad o gyfleoedd addysgol i ysgolion a ddarperir gan yr Awdurdod, a gellid rhannu'r cyfleoedd hyn yn bedwar maes: y rhaglen 'lle codir tâl' a ddarperir mewn sawl lleoliad yn y Parc Cenedlaethol a'r cyffiniau; y rhaglen 'lle codir tâl' o weithgareddau a ddarperir yng Nghanolfannau'r Parc Cenedlaethol; gweithgareddau i blant oedran ysgol sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned ac amcanion cynhwysiant cymdeithasol yr Awdurdod; a gweithgareddau prosiect a phartneriaeth gydag ysgolion.

Cafodd rhai o'r gweithgareddau hyn eu cyflwyno drwy fenter Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, oedd â'r nod o hyrwyddo defnydd o'r awyr agored ar draws y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer dysgwyr ifanc yn Sir Benfro. Cyflogir Cydlynydd Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar ran y fenter, ac roedd hi'n bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd hi bod y prosiect yn ystod y cyfnod clo wedi bod yn cynnig cymorth i rieni ac i athrawon drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a bod hyn wedi golygu ymgysylltu ac adborth da. Ychwanegodd bod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi canllawiau ar ddysgu dros dymor yr haf, a bod ffocws penodol ar ddysgu yn yr awyr agored oedd yn cynnig pob math o bosibiliadau i'r prosiect allu cynorthwyo athrawon.

Aeth Arweinydd y Tîm Darganfod rhagddo i egluro y byddai Fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru, a ddatblygir ar hyn o bryd, ac a ddefnyddir ledled Cymru o 2022 ymlaen, yn golygu cryn heriau a chyfleoedd i ddarparwyr cyfleoedd dysgu megis y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Roedd staff yr Awdurdod eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ystyried sut y gellid addasu eu rhaglenni fel eu bod yn parhau i gwrdd ag anghenion yr ysgolion lleol; roedd gweithdy i addysgwyr wedi'i gynnal fis Ionawr eleni, ac roedd y gweithdy hwn wedi bod yn amgylchedd cadarnhaol i athrawon a staff yr Awdurdod gydweithio.

Y farn gyffredinol oedd y byddai'r blynyddoedd nesaf yma yn rhoi digon o gyfle i sicrhau bod dulliau arloesol o ddysgu yn yr awyr agored yn cael eu hymgorffori yn ein hysgolion. Dulliau'r Awdurdod oedd cynnig profiadau oedd yn 'gwbl ysbrydoledig' fyddai'n aros yng nghof y plant - roedd hyn yn galluogi'r athrawon i adeiladu ar y profiadau hynny yn yr ystafell ddosbarth. Roedd y cwricwlwm newydd yn fwy trawsgwricwlaidd ac, wrth weithio gydag athrawon, roedd staff yr Awdurdod yn gallu cyflwyno rhaglenni yn ôl thema oedd yn gysylltiedig â sawl maes o'r cwricwlwm. Roedd un llinyn gwaith a ddatblygir ar hyn o bryd dan y teitl 'Cynefin' ar y thema o ymdeimlad o le a pherthyn, yn cydweddu'n dda â'r ffocws ar ardaloedd lleol yn sgîl y cyfnod clo Covid-19.

Gan ddiolch i'r swyddogion am gyflwyniad diddorol, nododd yr Aelodau bod y gwasanaeth addysg yn derbyn cymhorthdal, a chytunwyd bod hyn yn briodol, o ystyried mai hyn oedd yr ail o ddibenion yr Awdurdod. Holwyd ynghylch ffocws y gwaith ar addysg gynradd, ac a oedd yna gynlluniau i weithio gydag ysgolion uwchradd a darparwyr addysg bellach ac addysg uwch. Eglurodd Arweinydd y Tîm Darganfod, er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud gydag ysgolion uwchradd, megis Ysgol Uwchradd Hwlffordd, bod anawsterau yn codi o ran amserlennu, er bod cymorth gyda gwaith maes yn cael ei gynnig. Roedd y swyddogion yn parhau i weithio gyda chydlynwyr Baccalaureate Cymru, ond bod diffyg adnoddau

colegau hefyd yn broblem.  Ychwanegodd bod addysg ôl-18 yn faes i'w ddatblygu yn y dyfodol.

Hefyd awgrymodd yr Aelodau bod y cyfryngau digidol yn gyfle i ehangu i faes yr ysgolion uwchradd, a chytunodd y swyddog bod hyn yn dod yn fwyfwy pwysig, ac y byddai'r staff yn adeiladu ar yr adnoddau a ddarperir ar wefan Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro.  Hefyd roedd deunydd ar leoliad unigryw yr Awdurdod ar yr arfordir yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

**NODWYD**

**7. Lleihau Llygredd Golau**

Dywedwyd bod Partneriaeth Llygredd Golau Sir Benfro, oedd yn cynnwys swyddogion o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, Cyngor Sir Penfro a Chyfoeth Naturiol Cymru, wedi'i sefydlu mewn ymateb i ddiddordeb cynyddol ym mhwysigrwydd awyr dywyll a'r pryder am effaith golau artiffisial yn y nos.  Amcanion allweddol y Bartneriaeth oedd hyrwyddo awyr dywyll a serennog yn Sir Benfro, a hefyd y tirwedd a'r morwedd, ar gyfer bywyd gwyllt, iechyd, diwylliant a threftadaeth.

Dros y 18 mis diwethaf, roedd y Bartneriaeth wedi clustnodi pryderon allweddol, wedi rhannu gwaith ymchwil ac enghreifftiau o arferion da, ac wedi gweithio gyda'i gilydd i glustnodi cyfleoedd i leihau effaith golau artiffisial yn y nos.  Hefyd roedd y Bartneriaeth wedi cynhyrchu "Awyr Serennog Sir Benfro" oedd yn cynnwys gwybodaeth am effaith llygredd golau, ffeithiau ar ansawdd awyr y nos, a syllu ar y sêr yn Sir Benfro; roedd y ddogfen wedi'i hatodi i'r adroddiad er gwybodaeth yr Aelodau.  Defnyddir y ddogfen i ennyn ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y pwnc, yn ogystal â bod yn gymorth gyda'r gwaith o gynllunio camau gweithredu.

Roedd y Swyddog Iechyd, Llesiant, Hamdden a Thwristiaeth wedi tynnu sylw at rai o lwyddiannau'r Bartneriaeth, gan gynnwys cynhyrchu posteri mewn sawl iaith oedd yn rhoi cyngor ar helpu Adar Drycin Manaw oedd wedi'u drysu gan y goleuadau llachar ar longau, rhoi canllawiau ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol, a rhoi mewnbwn i'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

Gan ddiolch i'r swyddog am gyflwyniad ysbrydoledig gyda ffotograffau trawiadol, cyfeiriodd un Aelod at y manteision i dwristiaeth o hyrwyddo awyr dywyll y sir.  Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd bod angen cyngor pellach ar y modd ymarferol y gallai busnesau, cymunedau ac unigolion leihau llygredd golau, a'r cyngor hwnnw naill ai mewn dogfen ategol neu ar safle'r we.  Gan sôn am yr hyfforddiant rhagorol yr oedd yr Aelodau wedi'i gael, roeddent hefyd o'r farn bod gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn allweddol i fwrw ymlaen â'r neges.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod y Seminar ddiweddaraf i'r Cynghorau Cymuned wedi canolbwyntio ar yr union bwnc hwn - yn anffodus roedd y noson dan sylw yn gymylog heb allu gweld y sêr, ond er hynny roedd y rhai oedd yn bresennol wedi cael y sesiwn yn un gwerth chweil.

**NODWYD**

**8. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diweddu 31ain o Fawrth 2020**

Roedd yr adroddiad perfformiad a roddwyd gan y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2019-20, ac yn dilyn y saith o amcanion llesiant, ac adran ychwanegol oedd yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad am y flwyddyn ariannol gyfan – Ebrill i fis Mawrth 2019/20, ac yn cynnwys data Chwarter 4 (Ionawr i Mawrth) am y mwyafrif o'r setiau data. Fodd bynnag roedd rhai o'r setiau data chwarterol yn anghyflawn oherwydd materion oedd yn ymwneud â methu cael mynediad i'r systemau a'r cofnodion yn sgîl COVID-19 a'r staff yn gweithio gartref. Roedd data rhai o'r mesurau yn ddata cyn-derfynol, a byddai'r data ffynhonnell yn cael ei adolygu cyn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar ddiwallu'r Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2).

Lle'r oedd y ffrydiau gwaith, mesurau neu gamau gweithredu yn ymwneud â dyletswydd Adan 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) roeddynt wedi'u labelu yn unol â hynny. Nodwyd bod nifer o'r camau gweithredu wedi'u gosod yn y categori melyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a bod y camau hyn yn ymwneud â meysydd lle'r oedd angen gwneud rhagor o waith i fwrw ymlaen â'r gweithgareddau, bod y camau yn rhan o brosiect tymor hirach, neu bod cam gweithredu wedi'i effeithio gan Covid-19.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o feysydd gwaith lle'r oedd y sgorio Coch Melyn Gwyrdd yn goch neu'n felyn, gan gynnwys rhai ystadegau cynllunio, hyfforddiant Golwg ar y Parc, y cynllun Dewch i Gerdded a Phrosiect Gorllewin Cymru Cerdded ar gyfer Llesiant, a'r Prosiect Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro, a rhoddwyd diweddariad ar y camau a gymerir ar y gweithgareddau hyn.

Dywedwyd yn y cyfarfod bod Adroddiad yr Arolygydd ar y Cynllun Datblygu Lleol wedi dod i law a bod yr Awdurdod yn aros am gyfle i fabwysiadu'r Cynllun.

Gan ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad, roedd yr Aelodau'n gwerthfawrogi'n benodol y sylwadau a wnaed fel rhan o'r cyflwyniad i'r adroddiad, oedd yn clustnodi meysydd a farciwyd yn goch neu'n felyn ac

o’r herwydd bod angen tynnu sylw'r Aelodau atynt. Roeddent o’r farn bod yr adroddiad yn dangos perfformiad cryf ar y cyfan a bod y staff i’w llongyfarch. Fodd bynnag, gofynnwyd am gael allwedd i'r sgorio Coch Melyn Gwyrdd ac ychydig mwy o eglurhad o ran y rheswm dros y sgôr mewn rhai achosion. Eglurodd y swyddog bod y system Rheoli Perfformiad yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, ac y byddai'r modd yr adroddir am faterion yn y dyfodol yn cael ei ystyried. Roedd gwahanol swyddogion ar draws yr Awdurdod yn cyflwyno sylwadau, a gallai hynny arwain at amrywiol lefelau o fanylder, ac awgrymodd y gellid rhoi canllawiau ychwanegol i’r staff.

Lle nad oedd gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd oherwydd y cyfnod clo Covid-19, gofynnodd yr Aelodau pa systemau oedd ar waith i sicrhau bod yr adroddiad diwedd blwyddyn yn gyflawn. Atebodd y swyddog bod yr adroddiad diwedd blwyddyn ar ffurf y Cynllun Gwella Rhan 2 fyddai'n dod gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol maes o law. Cyn cwblhau’r adroddiad, byddai'r holl ddata yn cael ei adolygu ac unrhyw fylchau yn cael eu clustnodi a'u diweddaru.

**NODWYD**

[Gohiriwyd y Pwyllgor am 10 munud.]

**9. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i’r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Timau Rheoli ac Arweinyddiaeth wedi adolygu’r gofrestr risg, a nodwyd y newidiadau a wnaed ers yr adroddiad blaenorol. Ymhlith y newidiadau hyn oedd y risgiau oedd wedi codi yn sgîl y pandemig Covid-19.

Awgrymodd yr Aelodau y gellid ystyried cynnwys risgiau ychwanegol ar y gofrestr ynglŷn ag effaith newid yn yr hinsawdd / erydiad arfordirol ar adnoddau'r Awdurdod, a hefyd y risg o glefydau cyffredinol – ar bobl, anifeiliaid ac ar blanhigion (megis clwy’r Traed a’r Genau). Hefyd awgrymwyd o ran Risg 45, Effaith Covid-19, y dylai hyn gynnwys effeithiau ar iechyd a lles staff a'r camau cadarnhaol a gymerir i liniaru'r effeithiau hyn.

Gofynnodd Aelod arall am i'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarperir am y risgiau gael ei hadolygu, a nodwyd y dylid cyfeirio hefyd at y Cynllun Gweithredu 'Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd' a gymeradwywyd yn ddiweddar gan yr Awdurdod.

Nododd sawl Aelod bod y dull o asesu risg a'r modd yr adroddir am y risgiau mewn sefydliadau yn gyffredinol wedi newid yn ddiweddar, ac yn meddwl tybed a ddylid cynnal sesiwn ddatblygu i'r holl Aelodau ystyried dull yr Awdurdod. Ymatebodd y Prif Weithredwr bod fformat y

Gofrestr wedi'i newid o ganlyniad i argymhelliad yr Archwiliad Mewnol, ond ar ôl penodi Archwilwyr Mewnol newydd yn ddiweddar, gellid ystyried y mater hwn ymhellach. Mewn cyfarfod yn y dyfodol, byddai'r Gofrestr Risg yn cael ei chyflwyno ar ddechrau'r cyfarfod, yn hytrach na'i rhoi ar ddiwedd yr agenda i ganiatáu mwy o amser i drafod.

**NODWYD**

**10. Y Llwybrau Celtaidd**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr drosolwg byr i'r Pwyllgor o'r prosiect Llwybrau Celtaidd**.** Eglurodd mai prosiect twristiaeth oedd hwn oedd yn dangos treftadaeth ddiwylliannol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yng Nghymru, a Waterford, Wexford a Wicklow yn Iwerddon. Nod y prosiect yw annog ymwelwyr allai fod yn teithio drwodd i aros neu i ddychwelyd, a chael profiad o lefydd sy'n denu llai o ymwelwyr. Mae'r prosiect yn targedu yn benodol ymwelwyr o Ffrainc, yr Almaen a'r Unol Daleithiau. Y gobaith erbyn hyn oedd y byddai cynlluniau marchnata'r Prosiect yn gymorth i ailgychwyn twristiaeth yn fwy cyffredinol yn dilyn y cyfnod clo pandemig Covid-19, a'i bod yn debygol y byddai'r cynlluniau hyn yn cael eu haddasu mewn ymateb i'r pandemig. Gellid cael gwybodaeth ar wefan y Prosiect http://www.celticroutes.info oedd yn cynnwys ffotograffiaeth trawiadol; ymhlith y gweithgareddau marchnata eraill oedd erthyglau mewn cylchgronau, gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, a hysbysebu ar hysbysfyrddau. Roedd contract ar gyfer gwerthuso cam cyntaf y prosiect wedi mynd allan i dendr.

Gofynnodd yr Aelodau am gael copi o'r cyflwyniad ac am ddiweddariad pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**NODWYD.**

**11. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**

Awgrymwyd y gellid ystyried y defnydd a wneir gan yr Awdurdod o dechnoleg ddigidol, er enghraifft ar gyfer storio a dosbarthu Adroddiadau Pwyllgorau a chyflwyniadau ar yr adroddiadau hynny. Atebodd y Prif Weithredwr bod opsiynau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer datrys materion technolegol, a'i fod yn obeithiol y gellid dod o hyd i gyllideb.

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2020 heb eu diwygio. |